# Memorandwm Esboniadol i'r Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru)

Cafodd y Memorandwm Esboniadol hwn ei baratoi gan yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Fe'i diwygiwyd yn unol â phenderfyniad Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4 o dan reol sefydlog 23.40 er mwyn adlewyrchu diwygiadau a wnaed i'r Mesur yn ystod Cyfnod 2.

## Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i byddai darpariaethau'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) a gyflwynwyd gennyf ar 22 Medi 2008 o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Dr Brian Gibbons AC**
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
Yr Aelod Cynulliad â gofal am y Mesur Arfaethedig

01 Ebrill 2009

# Cynnwys

**RHAN 1**

1. Disgrifiad
2. Cefndir deddfwriaethol
3. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael
4. Ymgynghori
5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth
6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

**ATODIAD 1 – Nodiadau Esboniadol**

# 1. Disgrifiad

1.1 Diben y Mesur yw diwygio'r sail statudol ar gyfer gwella gwasanaethau a chynllunio strategol gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r Mesur yn cysylltu llesiant a chynllunio cymunedol â gwella gwasanaethau.

1.2 Mae'r Mesur yn ailddiffinio dyletswyddau sylfaenol i roi cyfrif am welliannau. Bydd yn ei gwneud hi'n ofynnol i bartneriaid lleol gydweithredu wrth sicrhau canlyniadau strategol cymunedol ac ymgysylltu â dinasyddion.

## 2. Cefndir deddfwriaethol

2.1 Ceir y pwerau i wneud Mesur o’r fath ym Materion 12.4 a 12.5 Atodlen 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2006, fel y’u mewnosodwyd gan adran 235 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 ac Atodlen 17 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007.

**Matter 12.4**
Provision for and in connection with strategies of county councils and county borough councils for promoting or improving the economic, social or environmental wellbeing of their areas or contributing to the achievement of sustainable development in the United Kingdom, including provision imposing requirements in connection with such strategies on other persons with function of a public nature.

**Matter 12.5**
Provision for and in connection with
a) the making of arrangements by relevant Welsh authorities to secure improvement in the way in which their function are exercised,
b) the making of arrangements by relevant Welsh authorities for the involvement in the exercise of the functions, and
c) the assessment and inspection of the performance of relevant Welsh authorities in exercising their functions.

The following are “relevant Welsh authorities”
a) a county council, county borough council or community council in Wales,
b) a National Park authority for a National Park in Wales,
c) a fire and rescue authority in Wales constituted by a scheme under section 2 of the Fire and Rescue Service Act 2004 or a scheme to which section 4 of that Act applies,
d) a levying body within the meaning of section 74(1) of the Local Government Finance Act 1988 in respect of which the county council or charging authority referred to in section 74(1)(b) of that Act was a council or authority for an area in Wales.
e) a body to which section 75 of that Act applies (special levies) and which as regards the financial year beginning in 1989 had power to levy a rate by reference to property in Wales.

Daeth Materion 12.4 a 12.5 i rym ar 30 Rhagfyr 2007.

# 3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

3.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 yn rhoi i'r Cynulliad y pŵer i wneud Mesurau mewn perthynas â gwella gwasanaethau a strategaethau cymunedol ac a allai gael ei ddefnyddio i ddiwygio, newid neu ddiddymu'r cyfan neu ran o'r ddeddfwriaeth gyfredol sy'n ymwneud â hwy.

3.2 Gwnaed nifer o ymrwymiadau yn natganiad polisi Llywodraeth Leol, Rhannu Cyfrifoldeb, 2007 i ddefnyddio'r pwerau hyn. Ymhlith yr ymrwymiadau hynny y mae bwriadau Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddiwygio gwerth gorau a chryfhau cynllunio cymunedol.

3.3 Diben y Mesur yn ei hanfod yw diwygio a disodli cyfundrefnau sydd yn y ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol (Deddfau Llywodraeth Leol 1999 a 2000 yn bennaf). Defnyddio'r pwerau uchod yw'r unig gyfrwng posibl sydd ar gael i wneud hynny.

## Y problemau gyda'r cyfundrefnau presennol

**Gwella Llywodraeth Leol**

3.4 O safbwynt polisi, mae nifer o wendidau mawr yn y gyfundrefn bresennol ar gyfer 'gwerth gorau' a nodwyd yn Neddf Llywodraeth Leol 1999:

a) mae'n canolbwyntio'n ormodol ar enillion tymor byr allbynnau gwasanaethau, heb unrhyw gyfeiriad at weithredu ehangach na chamau i'w cymryd yn y tymor hwy;
b) mae'n meithrin diwylliant o rag-gynllunio er mwyn bodloni targedau ar gyfer allbynnau a bennwyd ymlaen llaw yn hytrach nag ymateb i anghenion lleol dyrys;
c) nid yw'n cynnig i awdurdodau lleol a chyrff eraill fawr ddim hyblygrwydd o ran sut yr ânt ati i roi cyfrif i'w dinasyddion am eu perfformiad a'u cynlluniau i wella eu perfformiad;
d) nid yw'n rhoi i reoleiddwyr na Gweinidogion rôl ddigonol i gefnogi gwelliannau; mae'r rheoleiddwyr wedi'u cyfyngu i raddau helaeth i asesu cydymffurfiaeth â gofynion gweithdrefnol tra bo gan Weinidogion bwerau eang i ymyrryd yng ngwaith awdurdod sy'n 'methu', ond dim pwerau eraill ar raddfa lai na'r 'opsiwn eithaf' hwnnw.

3.5 O ganlyniad, ychwanegwyd at y gyfundrefn gwerth gorau yn 2001-2 gan Raglen Cymru ar gyfer Gwella. Cafodd y canllawiau cyntaf i awdurdodau ar Raglen Cymru ar gyfer Gwella eu cynnwys yng Nghylchlythyr 18/2002; fe'u diwygiwyd yn helaeth ddiwedd 2005 ((Cylchlythyr 28/2005) ac ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub (WPI15/2007)). Diben Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella oedd unioni llawer o'r gwendidau uchod ond drwy wneud hynny gwyrwyd yn

sylweddol oddi wrth y cynllun yn Neddf 1999. Canlyniad hyn oll yw bod y ddau gylchlythyr wedi mynd ymhell y tu hwnt i'r pwerau y mae adrannau 3, 5 a 6 o'r Ddeddf yn eu rhoi i Weinidogion gyhoeddi canllawiau, felly maent i raddau helaeth (ac yn gwbl eglur) yn anstatudol. Er bod awdurdodau a chyrff eraill yn barod ar y cyfan i gydymffurfio'n wirfoddol â Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella, mae'r diffyg sail statudol eglur a chadarn wedi arwain at amheuaeth ac anghysondeb sylweddol yn hyn o beth.

3.6 Nod Rhan 1 o'r Mesur felly yw diddymu'r gyfundrefn 'gwerth gorau' a rhoi yn ei lle gyfundrefn arall sy'n adlewyrchu'n well yr hyn y mae Rhaglen Gwella ar gyfer Cymru yn ceisio ei gyflawni yn fras; a thrwy hynny yn adlewyrchu'r cyd-destun polisi cyfredol a phrofiad awdurdodau a chyrff eraill sydd wedi defnyddio Rhaglen Gwella ar gyfer Cymru hyd yma. Drwy wneud hyn bydd hefyd yn rhoi grym statudol i nifer o'r argymhellion sydd yn Adolygiad Beecham, *Ar Draws Ffiniau*.

**Strategaethau Cymunedol a Chynllunio Cymunedol**

3.7 Cyhoeddwyd y Gwerthusiad Cenedlaethol o Strategaethau Cymunedol yng Nghymru yn 2006 a nodwyd ynddo nifer o gryfderau a gwendidau. Yn gyffredinol, nododd yr adroddiad y bu'r gwaith o lunio strategaethau cymunedol yn llwyddiant at ei gilydd ond bod angen gweithio ymhellach ar eu gweithredu a'u gwerthuso.

3.8 Mae dau wendid amlwg i gyfundrefn bresennol strategaethau cymunedol sef:

a) nad yw amcanion strategaethau cymunedol yn cael eu hadlewyrchu yn aml yn y broses o'u gweithredu yn y tymor byrrach ac yn y broses o newid gwasanaethau a, phan gânt eu hadlewyrchu, nid ydynt yn aml yn effeithiol iawn.
b) Mae'r cydlafurio rhwng darparwyr gwasanaethau lleol (sy'n cael ei awgrymu yn y canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru) yn dameidiog ac yn anghyson.

3.9 Mae angen ffocws cliriach ar gynllunio cymunedol yng Nghymru a mwy o ymdeimlad y gellir yn wir ei wireddu os ydyw i gyflawni ei botensial yn llawn. Ceisia'r cynigion o fewn y Mesur unioni hynny drwy osod gwaith partneriaethau lleol ar sylfaen fwy cyson a mwy cadarn a thrwy roi rhyddid i gyrff lleol ddiffinio a chytuno ar flaenoriaethau o ran eu strategaeth gymunedol o fewn fframwaith eang.

3.10 Mae'r polisi sy'n sail i'r rhan hon o'r Mesur yn adlewyrchu i raddau y llwyddiant a gafwyd wrth fabwysiadu cyfundrefn newydd ym maes cynllunio cymunedol yn yr Alban ers 2003. Seiliwyd y darpariaethau yn y rhan hon o'r Mesur felly i raddau ar adrannau 16-18 o Ddeddf Llywodraeth Leol yn yr Alban 2003 ('Deddf 2003').

## Cynigion ar gyfer y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru)

3.11 Bwriad cyffredinol y Mesur yw:

- cynnig mwy o hyblygrwydd i awdurdodau ymateb i anghenion dinasyddion a chymunedau o fewn cyd-destun cenedlaethol, gan roi eglurhad a chryfhau gallu Llywodraeth y Cynulliad i ymateb i achosion o danberfformio;
- creu cyfundrefn statudol sy’n integreiddio’n well y gwaith cynllunio strategol hirdymor a’r gwaith mwy byrdymor o wella gwasanaethau;
- diwygio’r gyfraith er mwyn adlewyrchu’n well natur a rôl wahanol llywodraeth leol yng Nghymru ;
- adeiladu ar brofiad awdurdodau a chyrff eraill wrth weithredu o fewn y cyfundrefnau cyfredol.

3.12 Mae’r Mesur, yn arbennig:

- yn ymestyn dyletswyddau awdurdodau mewn perthynas â sicrhau gwelliannau, gan bwysleisio yn arbennig bod gwella llesiant, cynaliadwyedd a thegwch cymdeithasol yn lleol yr un mor ddilys â gwella allbynnau mesuredig gwasanaethau neu eu heffeithlonrwydd;
- yn creu pŵer cyffredinol i awdurdodau (gan gynnwys awdurdodau lleol, Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub) gydlafurio â’i gilydd er mwyn gwella, a phŵer wrth gefn i Weinidogion gyfarwyddo hyn;
- yn ymestyn cwmpas y defnydd a wneir o ddata perfformiad er mwyn rhoi gwybod i ddinasyddion a chymunedau am y lefelau o wasanaeth y maent yn eu darparu;
- yn sicrhau mwy o gydlafurio rhwng archwilwyr, rheoleiddwyr ac arolygwyr llywodraeth leol er mwyn cael y gwerth mwyaf posib ohonynt a lleihau’r baich (golyga hyn i bob pwrpas roi arferion gorau cyfredol ar sail statudol);
- yn ymestyn a chynnig eglurhad ynghylch pwerau Gweinidogion i gefnogi gwelliannau mewn awdurdodau lleol ac i ymyrryd lle bo angen;
- yn ei gwneud hi’n ddyletswydd gyffredin ar i ddarparwyr gwasanaethau lleol baratoi a chyflwyno strategaeth gymunedol a chynllun gweithredu cysylltiedig.

3.13 Mae llawer o’r Mesur yn dwyn ynghyd elfennau o Raglen Gwella ar gyfer Cymru a’r cyfundrefnau gogyfer â chynllunio cymunedol nad ydynt yn statudol ar hyn o bryd. Byddai her ymhlyg yn hyn oll i awdurdodau ddefnyddio’r rhaglenni newydd i sicrhau’r canlyniadau gorau posibl i ddinasyddion a chymunedau lleol yn hytrach na chydymffurfio’n unig â’u cyfyngiadau ffurfiol neu barhau â’u gwaith fel arfer. Os na wnânt hynny, mae’n bosibl y gwelir Gweinidogion Cymru yn mynd ati i ddefnyddio eu pwerau cefnogi a’u pwerau ymyrryd newydd.

## Y cyrff y mae'r Mesur yn berthnasol iddynt

### Gwella Llywodraeth Leol – Rhan 1 o'r Mesur

3.14 **Awdurdodau lleol** - cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru; mae cyfanswm o 22 awdurdod o'r fath

3.15 **Awdurdodau Parciau Cenedlaethol** – mae tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru – Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

3.16 **Awdurdodau Tân ac Achub** – mae tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru - Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub De Cymru.

3.17 Mae'r tri math hyn o awdurdod yn cael eu galw, o dan Ddeddf 1999, yn "awdurdodau gwerth gorau". Mae'r Mesur yn dileu'r dynodiad hwnnw o ganlyniad i ddisodli'r gyfundrefn gwerth gorau.

3.18 Yng nghyd-destun y Mesur drafft, dylai pob un o'r awdurdodau uchod gael ei ystyried yn **awdurdod gwella Cymreig**.

3.19 Nid yw'r cynigion yn ymestyn i gynghorau cymuned a thref yng Nghymru nac ychwaith i awdurdodau'r heddlu yng Nghymru. Byddai gwneud y cynigion yn gymwys i'r cynghorau cymuned a thref yn gosod baich anghymesur ar eu hysgwyddau o ystyried eu maint ac ystod eu cyfrifoldebau tra bo awdurdodau'r heddlu y tu hwnt i gwmpas y pŵer gwneud Mesurau.

3.20 Nid yw'r Mesur yn caniatáu i Weinidogion Cymru newid y rhestr sy'n nodi'r cyrff y dylai'r cynigion fod yn gymwys iddynt yn y rhan o'r Mesur sy'n ymwneud â gwella gwasanaethau. Petai angen newid y cyrff sydd ar y rhestr yn y dyfodol yna gallai hyn gael ei wneud drwy arfer ymhellach y pŵer gwneud Mesur.

### Strategaethau Cymunedol a Chynllunio Cymunedol – Rhan 2 o'r Mesur

3.21 **Awdurdodau lleol** – fel y nodir yn Rhan 1 o'r Mesur.

3.22 **Awdurdodau Tân ac Achub** – fel y nodir yn Rhan 1 o'r Mesur.

3.23 **Awdurdodau Parciau Cenedlaethol** – fel y nodir yn Rhan 1 o'r Mesur.

3.24 **Awdurdodau'r Heddlu** – cawsant eu sefydlu o dan adran 3 o Ddeddf yr Heddlu 1986 a sefydlwyd yr Heddluoedd o dan adran 6 o Ddeddf yr Heddlu 1996. (Ceir pedwar awdurdod yng Nghymru:

Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys, Awdurdod Heddlu Gwent, Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru ac Awdurdod Heddlu De Cymru. Ceir hefyd bedwar heddlu yng Nghymru yn yr un ardaloedd yn union ag awdurdodau'r heddlu.)

3.25 **Prif Gwnstabl yr Heddlu** – fe'i penodir gan awdurdod heddlu o dan adran 11 o Ddeddf yr Heddlu 1996 ar gyfer heddlu.

3.26 **Cynghorau tref a chymuned** – bydd gan bob awdurdod lleol niferoedd gwahanol o gynghorau cymuned a/neu dref yn eu hardaloedd.

3.27 **Byrddau Iechyd Lleol** - Ar hyn o bryd mae dau ar hugain o fyrddau iechyd lleol yng Nghymru sy'n cyfateb yn ddaearyddol i ardaloedd y ddau awdurdod lleol ar hugain sydd yng Nghymru. Sefydlwyd y ddau fwrdd iechyd lleol ar hugain o ganlyniad i Reoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) Cymru 2003 (OS 2003/148).

3.28 **Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol –** sydd wedi'u pennu mewn perthynas ag ardal awdurdod drwy gyfarwyddyd Gweinidogion Cymru**.**

### Eraill

3.29 Mae'r Mesur yn rhoi i Weinidogion Cymru y pŵer i ddiwygio'r rhestr uchod o gyrff neu i ychwanegu ati. Ceir manylion am y Gorchymyn ym Mhennod 5 - Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth.

## Dyletswyddau lleol ar gyfer awdurdodau lleol

*(Mae'r Paragraff hwn yn gymwys i'r rhan o'r Mesur Arfaethedig sy'n ymwneud â **Gwella Llywodraeth Leol**)*

3.30 Bydd awdurdodau lleol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub yn ddarostyngedig i ddyletswydd i wneud trefniadau i wella'n barhaus y modd y maent yn arfer eu swyddogaethau. Drwy wneud hynny rhaid i awdurdod roi sylw penodol i'r angen am wella'r modd y mae'n arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â saith agwedd arbennig ar wella. Mae'r Mesur hefyd yn nodi dyletswyddau eraill ar gyfer yr awdurdodau hyn o ran rhoi cyfrif am y gwelliant hwnnw.

*(Mae Paragraffau 3.31 -3.33 yn gymwys i'r rhan o'r Mesur Arfaethedig sy'n ymwneud â **Strategaethau Cymunedol a Chynllunio Cymunedol**)*

3.31 Bydd awdurdodau lleol yn ddarostyngedig i ddyletswydd i gychwyn proses a elwir yn gynllunio cymunedol ac, wedi iddo wneud hynny,

ei gynnal a'i hwyluso. Dylai'r awdurdod lleol ymgymryd â'r rôl o arwain y broses hon, ond caiff hyn ei ategu gan y ddyletswydd sydd ar y cyrff eraill a restrir yn 3.22–3.28 uchod i gydweithredu yn rhan o'r broses honno.

3.32 Ar ôl rhoi cychwyn ar y broses o gynllunio cymunedol, rhaid i'r awdurdod lleol, pan fydd yn credu bod modd dwyn y casgliadau ynghyd, fynd ati i'w cyhoeddi mewn dogfen. Y ddogfen hon fyddai'r strategaeth gymunedol ar gyfer ardal awdurdod lleol.

3.33 Ar ôl cyhoeddi'r Strategaeth Gymunedol dylai'r awdurdod lleol a'i bartneriaid fod o dan ddyletswydd:

- I fonitro o bryd i'w gilydd pa mor effeithiol a pherthnasol yw'r Strategaeth Gymunedol a'i hadolygu bob tair i bedair blynedd fan leiaf
- Os yw'n briodol, ar ôl adolygu'r Strategaeth Gymunedol, ei diwygio a'i hailgyhoeddi
- Cyhoeddi datganiad, bob dwy flynedd o leiaf, ar hynt y gwaith a wnaed o ran cyflawni amcanion y Strategaeth Gymunedol ac ymgymryd â'r camau gweithredu a briodolwyd i'r amryw gyrff sy'n rhan ohoni.

## Cymhwysiad Tiriogaethol

3.34 Mae'r Mesur yn gymwys i Gymru.

## Cychwyn

3.35 Gyda rhai eithriadau, dylai'r Mesur ddod i rym ar ddyddiad a bennir mewn gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru. Dylai gorchymyn o'r fath allu pennu gwahanol ddyddiadau at wahanol ddibenion.

# 4. Ymgynghori

*4.1* Rydym wedi ymgynghori ar y cynigion polisi ar gyfer y Mesur yn y ddogfen *Cyflawni Rhannu Cyfrifoldeb: Gwella Perfformiad a Chynllunio Cymunedol.*

*4.2* Dechreuodd yr ymgynghori ar 15 Chwefror 2008 a daeth i ben ar 30 Ebrill 2008. Roedd y cynigion yr ymgynghorwyd yn eu cylch wedi ymddangos cyn hynny yn y datganiad polisi *Rhannu Cyfrifoldeb* a'r ymgynghoriad *Gweledigaeth Leol - Paratoi Strategaethau Cymunedol*.

4.3 Ymhlith y rhai yr ymgynghorwyd â hwy oedd: awdurdodau lleol; awdurdodau'r heddlu a heddluoedd, awdurdodau tân ac achub; y trydydd sector, byrddau iechyd lleol; ymddiriedolaethau'r GIG; Swyddfa Archwilio Cymru; Parciau Cenedlaethol a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

4.4 Derbyniwyd 37 o ymatebion gan ystod eang o randdeiliaid a chyrff cysylltiedig.

4.5 Roedd bron pob un o'r rhai a ymatebodd yn croesawu'r cynigion a nodwyd yn y papur ymgynghori ac yn cydnabod bod angen deddfu.

4.6 Er hynny, dywedodd ambell un o blith y rhai yr ymgynghorwyd â hwy eu bod yn pryderu ynghylch rhai o'r cynigion ar gyfer y Mesur.

4.7 Nodir isod y materion sydd wedi golygu newid y cynigion ar gyfer y Mesur:

**Cydlafurio – Pŵer wrth gefn Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i gydlafurio**

4.8 Ymgynghorwyd ynghylch ei gwneud hi'n ddyletswydd ar i awdurdodau ystyried cydlafurio â'i gilydd lle byddai hyn yn arwain at gyflawni'n well amcan yr awdurdod o ran gwella. Er mwyn cefnogi hyn ymhellach gwnaethom ymgynghori hefyd ynghylch Gweinidogion Cymru yn cael pŵer wrth gefn i roi cyfarwyddyd i awdurdodau perthnasol gydlafurio â'i gilydd. Dylai'r pŵer alluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i ddau neu ragor o awdurdodau perthnasol os yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru y byddai cydlafurio rhwng yr awdurdodau perthnasol hynny yn ffordd well o sicrhau bod yr amcanion o ran gwella yn cael eu cyflawni lle bo'r awdurdodau dan sylw wedi methu cydlafurio â'i gilydd.

4.9 Roedd llawer o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn elyniaethus tuag at y cynnig hwn am iddynt deimlo ei fod yn rhoi gormod o bŵer i Weinidogion ymyrryd mewn penderfyniadau lleol a/neu'n gyfrwng i gyflwyno ad-drefnu llywodraeth leol.

4.10 O ganlyniad i'r ymatebion i'r ymgynghori, rydym wedi pwysleisio yn y Mesur bod pŵer Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i gydlafurio yn gyfystyr i bob pwrpas â phŵer i ymyrryd a fydd yn debyg i'r pŵer ymyrryd sydd gan Weinidogion Cymru ar hyn o bryd o dan y ddeddfwriaeth ynghylch gwerth gorau. Nid pŵer i'w ddefnyddio fel man cychwyn mohono; byddai angen gweld tystiolaeth bod yr awdurdod lleol neu'r awdurdodau dan sylw wedi methu cyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â chydlafurio a/neu heb ymateb i gynigion am gymorth gan Weinidogion Cymru yn hyn o beth.

**Cefnogaeth ac ymyrraeth – Rhoi i Weinidogion y 'pŵer i wneud unrhyw beth'**

4.11 Ymgynghorwyd ar roi pŵer i Weinidogion Cymru 'wneud unrhyw beth' i gefnogi awdurdodau perthnasol yn unigol neu ar y cyd â'i gilydd i wneud gwelliannau.

4.12 Teimlai nifer o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy bod yr ymadrodd 'i wneud unrhyw beth' yn rhy eang ei gwmpas a'i fod yn agored i'w ddehongli a bod angen ei egluro ymhellach. Teimlent y gallai'r pŵer gael ei ddefnyddio gan Weinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdodau lleol i gymryd pa gamau bynnag fel y gwelent hwy yn dda.

4.13 Y bwriad oedd rhoi i Weinidogion Cymru bŵer eang i gynorthwyo awdurdodau perthnasol i gydymffurfio â darpariaethau'r Mesur. Byddai pennu'r union fath o gymorth i'w roi ym mhob achos unigol wedi bod yn rhy gaeth. Dyna'r rheswm y defnyddiwyd yr ymadrodd 'i wneud unrhyw beth' yn y ddogfen ymgynghori. Ni fyddai hynny wedi rhoi rhwydd hynt i Weinidogion Cymru wneud fel y mynnont: byddai wedi bod angen iddynt ddangos bob amser eu bod yn cefnogi awdurdodau perthnasol wrth gydymffurfio â'r Mesur.

4.14 Mae'r Mesur yn gwneud darpariaeth sy'n debyg i'r pwerau sydd gan Weinidogion Cymru ar hyn o bryd yn adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2007 (llesiant). Nid yw'r pwerau hyn yn cynnwys pŵer cyfarwyddo ar gyfer awdurdod lleol nac unrhyw un arall.

**Archwilydd Cyffredinol Cymru – Rheolwr Perthynas**

4.15 Ymgynghorwyd ar gynnig a fyddai'n rhoi swyddogaethau 'Rheolwyr Perthynas' Swyddfa Archwilio Cymru ar sail statudol gan eu gwneud yn gyfrifol yn ffurfiol am gydlynu gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu yn lleol ac am baratoi un adroddiad ar eu canfyddiadau.

4.16 Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebion yn cefnogi'r cynnig hwn yn llawn ac yn gadarn. Fodd bynnag, er bod Swyddfa Archwilio Cymru yn

cytuno'n gryf ag ysbryd y cynnig, cred na ddylai'r Rheolwyr Perthynas eu hunain fod yn swydd-ddeiliaid statudol. Byddai'n well ganddynt weld y ddyletswydd i gyflawni swyddogaethau'r Rheolwr Perthynas yn cael ei rhoi yn nwylo Archwilydd Cyffredinol Cymru yn uniongyrchol.

4.17 Credant y byddai hyn yn cymhlethu ymhellach system lle mae archwilwyr sydd wedi'u penodi gan awdurdodau perthnasol eisoes yn swydd-ddeiliaid statudol. Yn eu barn hwy, byddai'n symlach rhoi dyletswydd i gyflawni swyddogaethau Rheolwr Perthynas yn uniongyrchol yn nwylo Archwilydd Cyffredinol Cymru. Byddai Archwilydd Cyffredinol Cymru yn dirprwyo'r swyddogaeth honno i aelod o staff Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer pob awdurdod lleol – felly byddai'r canlyniad ymarferol yr un fath yn union. Gallai hyn hefyd ganiatáu i gorff rheoleiddio neu arolygu arall gyflawni swyddogaeth Rheolwr Perthynas lle bo'n briodol, lle mae'n bosibl na fyddai'r cynigion gwreiddiol wedi caniatáu hynny. Rydym yn cytuno ag awgrymiadau Swyddfa Archwilio Cymru yn hyn o beth.

**Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghori**

4.18 Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru. Gellir defnyddio'r ddolen ganlynol i'w weld:
http://new.wales.gov.uk/topics/localgovernment/consultation/closed/deliveringashared responsibility/?lang=cy

# 5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

5.1 Ceir yn y bennod hon fanylion am bob darpariaeth yn y Mesur i wneud is-ddeddfwriaeth. Ym mhob achos, mae pwerau o'r fath yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud mân newidiadau i'r manylion sydd yn y Mesur er mwyn ymdrin â materion neu ddatblygiadau nad ydynt yn hysbys ar yr adeg hon. Mae hyn yn osgoi'r angen i gyflwyno Mesur diwygio i ddelio â materion megis terfynau amser gweinyddol.

## Gwella Llywodraeth Leol

### Adran 7 - Dyletswydd gyffredinol mewn perthynas â gwella

5.2 Mae'n rhaid i awdurdod gwella Cymreig wneud trefniadau i wella'n barhaus y modd y mae'n arfer ei swyddogaethau. Wrth gyflawni ei ddyletswydd, rhaid i awdurdod roi sylw penodol i'r angen am wella'r modd y mae'n arfer ei swyddogaethau o ran:

a) effeithiolrwydd strategol;
b) ansawdd gwasanaethau;
c) argaeledd gwasanaethau;
d) tegwch;
e) cynaliadwyedd;
f) effeithlonrwydd; ac
g) arloesi.

5.3 Y bwriad gyda'r categorïau uchod yw bod yn gynhwysfawr ond o ystyried ehangder gwasanaethau awdurdodau a'u heffaith yn y tymor hwy ni allwn ddiystyru'r posibilrwydd y bydd angen eu newid o bosibl. Y dymuniad felly yw y dylai fod gan Weinidogion Cymru bŵer gwneud Gorchmynion er mwyn ychwanegu at elfennau o'r amcan gwella uchod neu eu diwygio neu eu diddymu neu er mwyn ychwanegu neu ddiddymu amcanion. Cyn gwneud gorchymyn o'r fath mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â chyrff ac unigolion cysylltiedig perthnasol.

5.4 Gan y gallai arfer pŵer o'r fath ail-lunio neu ymestyn ffocws strategol awdurdodau yn ei hanfod, credwn y dylai gorchymyn o'r fath fod yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn gadarnhaol**.

### Adran 8 - Dangosyddion perfformiad a safonau

5.5 Rhoddir i Weinidogion Cymru bŵer i bennu, drwy orchymyn, ffactorau perfformiad (dangosyddion perfformiad) y gellir eu defnyddio i fesur perfformiad awdurdod gwella Cymreig. Yn ogystal â hynny, gall Gweinidogion Cymru bennu safonau perfformiad mewn perthynas â'r safonau perfformiad a bennwyd ganddynt hwy. Mae'r Mesur hefyd yn rhoi i Weinidogion Cymru y disgresiwn i bennu gwahanol ddangosyddion perfformiad a gwahanol safonau perfformiad ar gyfer gwahanol awdurdodau neu fathau o

awdurdodau. Byddai a wnelo gorchymyn o’r fath â diffiniadau manwl dangosyddion a safonau perfformiad yn unig.

5.6 Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag Archwilydd Cyffredinol Cymru, cynrychiolwyr awdurdodau gwella Cymreig yr effeithir arnynt ac unrhyw unigolion eraill fel y gwelant yn dda cyn gwneud gorchymyn o’r fath.

5.7 Bydd dangosyddion perfformiad a safonau yn newid dros amser o reidrwydd i adlewyrchu newidiadau ehangach yn y gyfraith, polisi ac arferion proffesiynol yn gysylltiedig â gwasanaethau llywodraeth leol. Gan hynny felly, dylai’r pwerau hyn fod yn ddarostyngedig i’r **weithdrefn negyddol** (fel sy’n digwydd ar hyn o bryd yn achos pwerau cyfatebol y Gweinidog Cymreig yn adran 4 Deddf Llywodraeth Leol 1999 a fyddai’n cael ei diddymu a’i disodli gan y Mesur).

**Adran 15 – Cynllunio ar gyfer gwella a chyhoeddi gwybodaeth ynghylch y gwelliannau**

5.8 Un nod ar gyfer y Mesur yw y dylai’r cynigion ar gyfer gwella gwasanaethau fod yn ehangach ac y dylent ymateb yn fwy i’r amgylchiadau ym mhob un o’r awdurdodau perthnasol arbennig na’r hyn a ganiateid gan Ddeddf 1999.

5.9 Y bwriad yw disodli’r cysyniad o lunio cynllun perfformiad gwerth gorau (adran 6 o Ddeddf 1999) a llunio Cynllun Gwella yn ei le. Mae awdurdodau yn ymrwymedig i baratoi a chyhoeddi gwybodaeth benodedig erbyn dyddiadau a bennwyd. Hoffai Gweinidogion Cymru gael y pŵer i ddiwygio’r dyddiadau hyn. Dylai’r Gorchymyn fod yn ddarostyngedig i’r **weithdrefn negyddol** gan na fyddai gorchymyn o’r fath yn gwneud dim ond newid terfyn amser gweinyddol; ni allai newid effaith gyffredinol adran 15. Mae’n bosibl hefyd y byddai angen gwneud gorchymyn yn gyflym i ddelio ag amgylchiadau eithriadol a fyddai wedi rhwystro awdurdod lleol rhag cyhoeddi adroddiad ar amser.

**Adran 16 – Ystyr “rheoleiddwyr perthnasol” a “swyddogaethau perthnasol”**

5.10 Ceir llawer o ddarpariaethau yn y Mesur ynglŷn ag archwilio, rheoleiddio ac arolygu awdurdodau lleol ac ynglŷn â rôl yr amryw gyrff sy’n gyfrifol am wneud gwaith o’r fath. Mae’n cynnwys yn benodol ddarpariaethau sy’n ei gwneud hi’n ofynnol iddynt gydlynu eu gweithgareddau ym mhob awdurdod lleol a chynorthwyo Archwilydd Cyffredinol Cymru wrth iddo lunio casgliadau cyffredinol ynghylch i ba raddau y mae awdurdod lleol wedi gwella ac i ba raddau y gallai barhau i wella.

5.11 Y cyrff rheoleiddio ac arolygu sy’n berthnasol o dan y darpariaethau hyn yw:

- Archwilydd Cyffredinol Cymru;

- archwilydd a benodir ganddo o dan adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004;
- Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru – hynny yw Estyn;
- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru neu, unrhyw berson a awdurdodir i arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan Bennod 6 Rhan 2 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003;
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg;
- arolygydd tân, arolygydd cynorthwyol neu unrhyw swyddog arall a benodir o dan adran 28 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004; ac
- unrhyw gorff arall sy'n gyfrifol am archwilio, rheoleiddio neu arolygu'r awdurdodau perthnasol a/neu'r gwasanaethau y maent yn eu darparu a fydd wedi'u pennu gan Weinidogion Cymru drwy Orchymyn. Mae ffurf cyrff o'r fath yn newid o bryd i'w gilydd – er enghraifft diddymwyd yr Arolygiaeth Twyll Budd-daliadau ym mis Ebrill 2008 – a byddai angen delio â chanlyniadau newidiadau o'r fath. Yn ogystal â hynny, mae'n bosibl y byddai Llywodraeth y Cynulliad am ystyried hefyd estyn cwmpas yr adran hon er mwyn cynnwys cyrff nad ydynt wedi'u rhestru ar hyn o bryd, er nad oes gennym gynlluniau i wneud hynny ar hyn o bryd.
- Ni chaniateir i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn o'r fath oni bai eu bod wedi ymgynghori â'r cyrff rheoleiddo yr effeithir arnynt, awdurdodau gwella Cymreig ac Archwilydd Cyffredinol Cymru. Yr unig eithriad fyddai gorchymyn a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i gorff rheoleiddio nad ydyw'n bod eto fod yn ddarostyngedig i delerau'r Mesur – hynny yw corff rheoleiddio a sefydlwyd o ganlyniad i ddeddfiad nad yw mewn grym eto. O dan amgylchiadau o'r fath, ni fyddai angen i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r corff rheoleiddio hwnnw gan na fyddai'n bod ar yr adeg arbennig honno.

5.12 Byddai gorchymyn o'r fath yn gwneud newidiadau i destun y Mesur ac yn rhoi dyletswyddau yn uniongyrchol ar gyrff archwilio, rheoleiddio neu arolygu a enwyd. Gan hynny, dylai gorchmynion o dan y ddarpariaeth hon fod yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn gadarnhaol**.

**Adran 20 – Adroddiadau Archwilio ac Asesu**

5.13 Y bwriad yw na ddylai archwilwyr fod yn gyfrifol bellach am ymgymryd ag unrhyw archwiliad ac eithrio'r archwiliad o gyfrifon yr awdurdod perthnasol o dan adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

5.14 Y dymuniad yw y dylai Archwilydd Cyffredinol Cymru fod yn gyfrifol am archwilio pob awdurdod perthnasol er mwyn gwirio a yw wedi cydymffurfio â darpariaethau'r Mesur mewn perthynas â chyhoeddi gwybodaeth benodedig ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig. Rhaid i'r archwiliad hwn gael ei gynnal yn flynyddol.

5.15 Dylai Archwilydd Cyffredinol Cymru baratoi adroddiad ar sail ei archwiliad.

5.16 Y bwriad yw y dylai adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru gael ei gyflwyno i'r awdurdod perthnasol erbyn 30 Tachwedd ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r cynllun yn berthnasol iddi (ac, os yw'n argymell cefnogi neu ymyrryd, i Weinidogion Cymru).

5.17 Gall Gweinidogion Cymru bennu drwy orchymyn ddyddiad arall ar gyfer cyflwyno'r cyfryw adroddiadau. Dim ond newid terfyn amser gweinyddol y byddai gorchymyn o'r fath yn ei wneud; ni allai newid effaith gyffredinol adran 20. Gan hynny felly, dylai gorchymyn o'r fath fod yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn negyddol**. Er mwyn delio ag amgylchiadau eithriadol a fyddai wedi rhwystro'r Archwilydd Cyffredinol rhag cyhoeddi adroddiad ar amser, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo y gall adroddiad mewn perthynas ag awdurdod penodol a enwyd mewn blwyddyn benodol a enwyd gael ei lunio yn ddiweddarach.

### Adrannau 32-33 - Pwerau Gweinidogion Cymru i addasu deddfiadau a rhoi pwerau newydd

5.18 Ceir darpariaeth yn y Mesur hefyd i roi i Weinidogion Cymru bŵer (drwy orchymyn) i wneud darpariaeth i addasu neu i ddatgymhwyso deddfiadau sy'n gymwys i awdurdodau gwella Cymreig. Dim ond lle bydd Gweinidogion Cymru yn fodlon bod deddfiad o'r fath yn atal neu'n rhwystro awdurdod gwella Cymreig rhag cydymffurfio â darpariaethau Rhan 1 o'r Mesur y caniateir i Weinidogion Cymru wneud hynny.

5.19 Mae gan Weinidogion Cymru hefyd bŵer i roi i awdurdod gwella Cymreig unrhyw bŵer ychwanegol sydd yn eu barn hwy yn angenrheidiol i hwyluso cydymffurfio â Rhan 1 o'r Mesur.

5.20 Mae'r gyfraith sy'n ymwneud â llywodraeth leol a'i gwasanaethau yn eang iawn ac mae angen y pwerau hyn i ddelio ag unrhyw beth annisgwyl a fyddai'n rhwystro ac yn atal awdurdodau rhag cyflawni eu dyletswydd hollbwysig o wneud gwelliannau fel y nodir yn Rhan 1. Gan hynny mae'r pwerau yn adrannau 32-33 yn eang eu cwmpas a gallent ganiatáu i Fesurau a Deddfau gael eu diwygio drwy orchymyn. Dylai gorchmynion o dan y darpariaethau hyn fod yn ddarostyngedig i **weithdrefnau uwchgadarnhaol** fel y disgrifir yn adran 33. Mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa â phwerau tebyg Gweinidogion Cymru yn adrannau 17A-B Deddf Llywodraeth Leol 1999 (a fyddai'n cael ei diddymu a'i disodli gan y Mesur).

## Cynllunio Cymunedol

**Adran 38 - Cyrff a ddylai fod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd i gymryd rhan**

5.21 Er mwyn mynd i'r afael ag anghysondeb a gwendidau cydweithredu ar gynllunio cymunedol yn lleol mae'r Mesur yn ei gwneud hi'n ddyletswydd ar i gyrff cyhoeddus perthnasol fod yn rhan o'r gwaith ar gynllunio cymunedol.

5.22 Mae'r Mesur yn gymwys i'r cyrff canlynol yn ardal pob awdurdod lleol:

a) Awdurdodau lleol;
b) Awdurdodau tân ac achub;
c) Awdurdodau'r heddlu;
d) Prif Gwnstabl yr Heddlu;
e) Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, lle bo'n berthnasol;
f) Cynghorau tref a chymuned;
g) Byrddau Iechyd lleol; ac
h) Ymddiriedolaethau GIG (sydd wedi'u pennu mewn perthynas ag ardal yr awdurdod drwy gyfarwyddyd Gweinidogion Cymru).

5.23 Mae gan Weinidogion Cymru hefyd bŵer drwy orchymyn i ddiwygio'r rhestr o'r cyrff neu ychwanegu ati. Gan y byddai gorchymyn o'r fath yn creu dyletswydd newydd sylweddol i'w chyflawni gan gorff cyhoeddus sydd â swyddogaethau cyhoeddus eu natur, dylai fod yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn gadarnhaol**. Lle bo ychwanegiadau yn cael eu gwneud i'r rhestr, ni allai gorchymyn gael ei wneud ond ar ôl ymgynghori â'r corff dan sylw ac â'r awdurdod lleol neu'r awdurdodau a fyddai'n cydweithio ag ef.

**Adran 51 - Diwygiadau canlyniadol etc a darpariaeth drosiannol ac arbed**

5.24 Rhoddir i Weinidogion Cymru bŵer drwy orchymyn i ddiwygio, diddymu neu ddirymu deddfiadau at ddibenion gwneud diwygiadau canlyniadol er mwyn gweithredu'n llawn unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Mesur. Nod hyn yw delio ag unrhyw fylchau a rhwystrau annisgwyl i weithredu'r Mesur. Fel sy'n arferol gyda phwerau o'r natur hon, dylai gorchymyn o'r fath fod yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn negyddol oni bai y bo'n diwygio Deddf neu Fesur lle dylid defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol**.

**Adran 53 - Cychwyn**

5.25 Mae Adran 53 yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn i gychwyn darpariaethau'r Mesur. Gall gorchymyn o'r fath bennu gwahanol ddiwrnodau at wahanol ddibenion ond ni allai wneud unrhyw ddarpariaeth arall. Fel sy'n arferol yn achos gorchmynion cychwyn, **ni fydd gweithdrefn** yn gymwys i orchmynion o'r fath.

*Mae Adran 51 ac Adran 53 yn ymwneud â Rhan 1 a Rhan 2 o'r Mesur.*

# 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Nid oes angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Mesur hwn.

6.2 Mae'r Mesur drafft yn ymwneud â strwythurau awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill o ran cynllunio busnes a chynllunio strategol, llywodraethu, atebolrwydd ac adrodd. Nid oes costau gweinyddol, cydymffurfio na chostau eraill yn deillio o ddarpariaethau'r Mesur arfaethedig. Mae gwaith cynllunio strategol a chynllunio busnes ac adrodd, a'r costau sy'n gysylltiedig â hyn oll, yn gwbl anorfod i unrhyw sefydliad a'r hyn a wna'r Mesur yw cynnig fframwaith cyffredin a chyfres o ddibenion ar eu cyfer.

6.3 Er hynny, credwn fod y strwythurau a'r systemau a gynigir yn y Mesur yn rhagori ar y rhai hynny y byddent yn eu disodli. Er enghraifft, maent yn rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol weithio mewn ffyrdd sy'n gweddu'n well iddynt hwy a'u sefyllfaoedd gweithredol. Yn y tymor hwy, byddai'n rhesymol gobeithio y byddai'r darpariaethau hyn yn caniatáu i'r cyrff y mae'r Mesur yn berthnasol iddynt ganfod a sicrhau enillion o ran eu heffeithlonrwydd, ond byddai hynny'n ddibynnol ar y camau i'w cymryd a'r sefyllfa yn lleol ac nid oes modd mesur unrhyw enillion o'r fath ar hyn o bryd.

**Atodiad 1**

# Nodiadau Esboniadol

## Rhagymadrodd

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â'r Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) fel y'i cyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 22 Medi 2008 ac fel y'i diwygiwyd o ganlyniad i drafodion Pwyllgor Cyfnod 2 y Mesur.

2. Mae Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u paratoi er mwyn helpu darllenydd y Mesur arfaethedig ac i helpu i fwydo'r drafodaeth ar y Mesur drafft. Nid ydynt yn rhan o'r Mesur drafft ac nid ydynt wedi'u hategu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

3. Dylai'r Nodiadau Esboniadol gael eu darllen ar y cyd â'r Mesur arfaethedig. Nid disgrifiad cynhwysfawr o'r Mesur mohonynt, ac nid dyna'r bwriad. Felly, os nad yw'n ymddangos bod angen esboniad neu sylw ar adran neu ran o adran, does dim un yn cael ei roi.

4. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn cyfeirio at Fesur Cynulliad i ddiwygio'r sail statudol dros wella gwasanaethau a chynllunio cymunedol gan yr awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru. Mae'r pwerau i wneud Mesur o'r fath i'w cael ym Materion 12.4 a 12.5 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'u mewnosodwyd gan Atodlen 17 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007.

# Sylwebaeth ar yr Adrannau

## Rhan 1 – Gwella Llywodraeth Leol

### Adran 1 – Ystyr "awdurdod gwella Cymreig"

Mae'r adran hon yn nodi'r cyrff sy'n 'awdurdodau gwella Cymreig' at ddibenion y Mesur: cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru, awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru; ac awdurdod tân ac achub yng Nghymru. Yn y Nodiadau Esboniadol hyn, mae i gyfeiriadau at "awdurdod / awdurdodau" yr un ystyr ag sydd i awdurdod / awdurdodau gwella Cymreig, oni nodir yn wahanol.

### Adran 2 – Dyletswydd gyffredinol mewn perthynas â gwella

Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gwella Cymreig wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer eu swyddogaethau ('y ddyletswydd gyffredinol').

Wrth wneud hynny, rhaid i awdurdod gwella Cymreig roi sylw penodol i'r angen i wella'r ffordd y mae ei swyddogaethau'n cael eu harfer o ran: effeithiolrwydd strategol; ansawdd gwasanaethau; argaeledd gwasanaethau; tegwch; cynaliadwyedd; effeithlonrwydd; ac arloesi. Mae'r termau hyn wedi'u diffinio yn adran 4 o'r Mesur.

### Adran 3 – Amcanion gwella

Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod gwella Cymreig osod amcanion gwella iddo'i hun a hynny ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Amcanion yw'r rhain ar gyfer gwella'r modd y mae swyddogaethau penodol i'r awdurdod yn cael eu harfer. Mae is-adran (2) yn darparu bod rhaid i awdurdod gwella Cymreig fod wedi gwneud trefniadau i wireddu'r amcanion hyn.

Mae is-adran (3) yn pennu bod rhaid i awdurdod ffurfio pob amcan gwella er mwyn sicrhau gwelliant mewn un o leiaf o'r agweddau ar wella sydd wedi'u rhestru yn yr is-adran honno ac sydd wedi'u diffinio yn adran 4 o'r Mesur.

### Adran 4 – Agweddau ar wella

Mae adran 4 yn diffinio'r agweddau ar wella a gynhwysir yn y Rhan hon o'r Mesur. Mae Adran 4 yn caniatáu i awdurdodau gwella Cymreig ddangos gwelliant mewn amryw o ffyrdd gwahanol. Mae'r adran hon yn creu nifer o wahanol agweddau ar wella a gaiff eu defnyddio i asesu a fu gwelliant ai peidio. Mae rhai agweddau'n ymwneud â gwella darpariaeth gwasanaethau yn unig, er enghraifft bydd awdurdod lleol yn dangos gwelliant o ran 'argaeledd gwasanaethau' os bydd yn gwella argaeledd ei

wasanaethau. O'i gyferbynnu, byddai gwelliant o ran 'cynaliadwyedd' yn cael ei ddangos petai unrhyw rai o swyddogaethau awdurdod lleol (ac nid y rheini sydd ynghlwm wrth ddarparu gwasanaeth yn unig) yn cael eu cyflawni mewn modd sy'n cyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy yn ardal yr awdurdod.

Bydd esboniad ar y diffiniadau a sut y byddant yn gweithio yn ymarferol, megis enghreifftiau i'w darlunio ac o dan ba amgylchiadau y gallai'r awdurdodau roi'r agweddau ar wella ar waith, yn cael eu nodi mewn canllawiau.

**Adran 5 – Ymgynghori ynghylch yr amcanion gwella**

Er mwyn bodloni'r ddyletswydd gyffredinol o dan adran 2 a phennu amcanion gwella, mae adran 5 yn gosod dyletswydd ar awdurdod gwella Cymreig i ymgynghori â chynrychiolwyr pobl sy'n perthyn i gategorïau penodedig:

- trigolion ardal yr awdurdod;
- y rhai sy'n talu ardrethi annomestig;
- defnyddwyr gwasanaethau (gan gynnwys felly trigolion nad ydynt yn talu'r dreth gyngor, a rhai nad ydynt yn drigolion megis cymudwyr); a
- chynrychiolwyr y rhai sydd â buddiannau yn yr ardal.

**Adran 6 – Y ddyletswydd gyffredinol, amcanion gwella ac ymgynghori: canllawiau**

Wrth gyflawni'r dyletswyddau o dan adrannau 2(1), 3(1), 3(2) a 5, rhaid i awdurdod gwella Cymreig roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

**Adran 7 – Agweddau ar wella: diwygio**

Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn a fydd yn diwygio unrhyw rai o'r agweddau ar wella sydd wedi'u nodi yn adran 4(2), neu eu dileu neu ychwanegu atynt. Yn ogystal â hynny, cyn gwneud gorchymyn o'r fath, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unigolion yr ymddengys iddynt eu bod yn cynrychioli awdurdodau gwella Cymreig ac unrhyw unigolyn arall o'r fath fel y gwelant yn dda.

**Adran 8 – Dangosyddion perfformiad a safonau perfformiad**

Mae adran 8 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi drwy orchymyn ffactorau mewn perfformiad (dangosyddion perfformiad) y caiff perfformiad awdurdod gwella Cymreig ei fesur yn eu herbyn. Hefyd caiff Gweinidogion Cymru bennu safonau perfformiad ar gyfer y dangosyddion perfformiad y maent yn eu gosod. Mae'r adran hon hefyd yn rhoi disgresiwn i Weinidogion Cymru bennu, drwy orchymyn, ddangosyddion

perfformiad a safonau perfformiad gwahanol i awdurdodau gwahanol neu i fathau gwahanol o awdurdodau.

Wrth bennu dangosyddion a safonau, ac wrth benderfynu a ddylid gwneud hynny gwneud hynny, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru anelu at hyrwyddo gwelliant yn y modd y mae'r awdurdod gwella Cymreig yn arfer ei swyddogaethau, ac yn benodol mae'n rhaid iddynt adlewyrchu'r angen am welliant wrth i bob un o'r swyddogaethau hynny gael eu harfer yn nhermau pob un o'r agweddau ar wella sydd wedi'u nodi yn adran 4. Hefyd, cyn pennu dangosyddion perfformiad neu safonau perfformiad, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag Archwilydd Cyffredinol Cymru, cynrychiolwyr yr awdurdodau gwella Cymreig ac eraill fel y gwelant yn dda.

Mae is-adran (7) yn pennu bod rhaid i awdurdod gwella Cymreig wneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau fel bod unrhyw safonau perfformiad yn cael eu cyrraedd.

**Adran 9 – Pwerau cydlafurio**

Mae'r adran hon yn rhoi pwerau bras i awdurdodau gwella Cymreig i'w galluogi i gydlafurio â'i gilydd ac â chyrff eraill, er mwyn cyflawni'r dyletswyddau o dan adrannau 2(1), 3(2) ac 8(7) neu er mwyn hwyluso gwaith i gyflawni'r dyletswyddau hynny. Mae Adran 9 yn caniatáu i awdurdod gydlafurio ag awdurdod arall er mwyn hwyluso cyflawni dyletswyddau'r awdurdod arall, p'un ai y byddai hynny'n hwyluso cyflawni ei ddyletswyddau ei hun ai peidio.

Er bod y Mesur yn rhoi'r un pwerau i bob math o awdurdod sy'n dod o dan y Mesur, nid yw'n rhoi pŵer na gorfodaeth ar gyrff eraill i gydlafurio ag awdurdod gwella Cymreig. Serch hynny, mae'n bosibl y bydd llawer o gyrff o'r fath yn gallu gwneud hynny o dan y pwerau sydd ganddynt eisoes. Mae'r adran hon yn sicrhau bod gan y tri math o awdurdodau gwella Cymreig bwerau cyfatebol.

Mae is-adran (3) yn darparu nad yw'r pwerau newydd hyn yn effeithio ar unrhyw rai o bwerau unrhyw awdurdod gwella Cymreig mewn deddfwriaeth arall.

**Adran 10 – Awdurdodau tân ac achub: pwerau dirprwyo.**

Mae adran 10 yn rhoi pŵer i ddirprwyo'u swyddogaethau i awdurdodau tân ac achub. Mae'r pŵer hwn yn gysylltiedig â'r pŵer sydd gan awdurdodau lleol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol eisoes o dan adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae adran 10 felly yn sicrhau bod gan yr awdurdodau tân ac achub yr un pŵer ag sydd gan yr awdurdodau Parciau Cenedlaethol a'r awdurdodau lleol o dan adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i gyflawni'r dyletswyddau o dan adrannau 2(1), 3(2) ac 8(7) neu i hwyluso gwaith i gyflawni'r dyletswyddau hynny.

**Adran 11 – Ystyr "pwerau cydlafurio"**

Mae adran 11 yn nodi'r hyn a olygir wrth 'bwerau cydlafurio' awdurdod gwella Cymreig, sy'n cynnwys pwerau mewn deddfwriaeth arall a'r rhai sy'n cael eu rhoi gan y Mesur.

**Adran 12 – Dyletswyddau mewn perthynas â phwerau cydlafurio**

Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod gwella Cymreig ystyried a fyddai'r pwerau cydlafurio yn ei helpu i gyflawni'r dyletswyddau o dan adrannau 2(1), 3(2) ac 8(7). Os yw'n credu y byddent yn helpu, yna mae'n rhaid i'r awdurdod gwella Cymreig geisio arfer y pwerau cydlafurio.

**Adran 13 – Casglu gwybodaeth sy'n gysylltiedig â pherfformiad**

Mae Adran 13 yn cyfeirio at gasglu gwybodaeth am berfformiad. Yn ystod pob blwyddyn ariannol, rhaid i'r awdurdod gwella Cymreig wneud trefniadau i gasglu gwybodaeth a fydd yn caniatáu iddo asesu ei berfformiad wrth wireddu ei amcanion gwella. Rhaid hefyd i'r awdurdod gwella Cymreig wneud trefniadau i gasglu gwybodaeth a fyddai'n caniatáu iddo fesur ei berfformiad yn erbyn dangosyddion neu safonau perfformiad a bennid gan Weinidogion Cymru ac unrhyw ddangosyddion neu safonau eraill y byddai'n dewis eu defnyddio ('dangosyddion a safonau hunanosodedig').

**Adran 14 – Defnyddio gwybodaeth am berfformiad**

Mae adran 14 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod gwella Cymreig ddefnyddio'r wybodaeth y mae'n ei chasglu o dan adran 13 i fesur ei berfformiad yn erbyn perfformiad blwyddyn flaenorol. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod gwella Cymreig gymharu ei berfformiad cyn belled ag y bo'n ymarferol â pherfformiad awdurdodau gwella Cymreig eraill ac â pherfformiad awdurdodau cyhoeddus eraill.

Yn ychwanegol, mae'n rhaid i awdurdod gwella Cymreig ddefnyddio'r wybodaeth y mae'n ei chasglu i asesu a allai wella ar ei berfformiad, ac, ar sail hynny, rhaid iddo benderfynu ar gamau i'w cymryd i wella'i berfformiad wrth arfer ei swyddogaethau.

Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru am eu dyletswyddau o dan adrannau 13 a 14.

**Adran 15 – Cynllunio gwelliannau a chyhoeddi gwybodaeth am welliannau**

Mae adran 15 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod gwella Cymreig wneud trefniadau i gyhoeddi gwybodaeth benodedig am ei berfformiad.

Mae'r wybodaeth sydd i'w chyhoeddi ar gyfer blwyddyn ariannol yn cynnwys:

- asesiad yr awdurdod o sut mae wedi perfformio mewn blwyddyn ariannol o ran cyflawni ei ddyletswydd o dan adran 2;
- asesiad yr awdurdod o sut mae wedi perfformio mewn blwyddyn ariannol o ran gwireddu ei amcanion gwella;
- asesiad yr awdurdod o sut mae wedi perfformio mewn blwyddyn ariannol o ran bodloni dangosyddion a safonau perfformiad lleol a bennwyd gan Weinidogion Cymru a dangosyddion a safonau hunanosodedig;
- asesiad yr awdurdod o sut mae wedi perfformio mewn blwyddyn ariannol o'i gymharu â pherfformiad blwyddyn flaenorol;
- asesiad yr awdurdod o sut mae wedi perfformio mewn blwyddyn ariannol ac mewn blynyddoedd blaenorol o'i gymharu â pherfformiad awdurdod gwella Cymreig arall;
- manylion sut mae wedi arfer ei bwerau cydlafurio; a
- manylion yr wybodaeth a gasglwyd o dan adran 13 a'r hyn y mae'r awdurdod wedi'i wneud i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 14.

Dylai'r wybodaeth gael ei chyhoeddi gan yr awdurdod perthnasol cyn 31 Hydref yn union ar ôl y flwyddyn ariannol y mae'n cyfeirio ati.

O dan yr adran hon mae'n rhaid i awdurdod gwella Cymreig sicrhau ei fod yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw adroddiad sy'n ymwneud ag arolygiad arbennig.

Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod gwella Cymreig gyhoeddi 'cynllun gwella' sy'n nodi ei gynlluniau ar gyfer cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 2(1), 3(2) ac 8(7) ar gyfer blwyddyn ariannol ac, os yw'n briodol, ar gyfer blynyddoedd dilynol. Rhaid iddo gael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n cyfeirio ati.

Mae adran 15(8) yn darparu bod rhaid i awdurdod gwella Cymreig roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru am yr adran hon.

**Adran 16 – Ystyr "rheoleiddwyr perthnasol" a "swyddogaethau perthnasol"**

Mae adran 16 yn rhestru'r rheoleiddwyr perthnasol a'u swyddogaethau perthnasol. Mae'n rhoi pŵer hefyd i Weinidogion Cymru newid y rhestr drwy orchymyn.

Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag awdurdodau gwella Cymreig, Archwilydd Cyffredinol Cymru a chyrff rheoleiddio perthnasol cyn defnyddio'r pŵer i wneud gorchymyn.

Mae'n bosibl y gall Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer hwn i ychwanegu corff rheoleiddio nad yw'n bod eto. Ni fyddai'r ddyletswydd i ymgynghori yn gweithio o dan amgylchiadau o'r fath am na all

Gweinidogion Cymru ymgynghori â chorff nad yw'n bod. Mae is-adran (6) yn delio ag achos o'r fath drwy ddiddymu'r ddyletswydd i ymgynghori â chorff rheoleiddio newydd o dan yr amgylchiadau hynny.

**Adran 17 – Gwybodaeth am welliannau a chynllunio ar gyfer gwella: archwilio**

Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal archwiliad i asesu a yw awdurdod gwella Cymreig wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15 o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol ag unrhyw ganllawiau sydd wedi'u dyroddi gan Weinidogion Cymru o dan yr adran honno.

**Adran 18 – Asesiadau gwella**

Mae adran 18 yn gosod dyletswydd ar Archwilydd Cyffredinol Cymru i gynnal asesiad sy'n edrych ymlaen ac sy'n nodi i ba raddau y mae awdurdod gwella Cymreig yn debyg o fodloni gofynion Rhan 1 o'r Mesur yn y flwyddyn honno.   O dan yr adran hon, gall Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal asesiad sy'n cwmpasu mwy na blwyddyn os dymuna. Wrth gynnal yr asesiad, byddai disgwyl i'r Archwilydd Cyffredinol gymryd i ystyriaeth wybodaeth a dogfennau perthnasol a dderbyniwyd gan reoleiddwyr ac arolygwyr eraill o dan adran 33A.

**Adran 20 – Adroddiadau archwilio ac adroddiadau asesu**

Mae adran 20 yn gosod dyletswydd ar Archwilydd Cyffredinol Cymru i gynhyrchu adroddiad neu adroddiadau ar bob awdurdod gwella Cymreig mewn perthynas â'i ddyletswyddau o dan adrannau 17 a 18.  Dylai'r adroddiad neu'r adroddiadau:

- ardystio bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi cynnal yr archwiliad o dan adran 17;
- datgan a yw'r Archwilydd Cyffredinol, o ganlyniad i'r archwiliad, yn credu bod yr awdurdod wddi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15 ac wedi gweithredu yn unol â'r canllawiau;
- ardystio bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi cynnal yr asesiad o dan adran 18;
- esbonio sut y mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi defnyddio'r wybodaeth a dderbyniodd gan gyrff rheoleiddio eraill o dan adran 33A at ddibenion cynnal asesiad o'r gwelliant a wnaed gan awdurdod o dan adran 18;
- datgan a yw'r Archwilydd Cyffredinol, o ganlyniad i'r asesiad, yn credu bod yr awdurdod yn debyg o gydymffurfio â gofynion Rhan 1 o'r Mesur hwn;
- argymell (os yw'n briodol) unrhyw gamau y dylai'r awdurdod eu cymryd er mewn cyflawni ei ddyletswyddau neu weithredu yn unol â'r canllawiau;
- argymell (os yw'n briodol) y dylai Gweinidogion Cymru roi cymorth o dan adran 29 neu gyfarwyddyd o dan adran 30; a

- datgan a yw'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cynnal arolygiad arbennig o dan adran 22.

Dylai copïau o'r adroddiadau gael eu hanfon at yr awdurdod gwella Cymreig perthnasol ac at Weinidogion Cymru erbyn 30 Tachwedd bob blwyddyn. Caiff Gweinidogion Cymru newid y dyddiad hwn drwy orchymyn.

Yn ogystal â hynny, mae is-adran (4) yn delio â'r amgylchiadau hynny lle byddai'n afresymol neu'n anymarferol i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi adroddiad ar awdurdod penodol erbyn 30 Tachwedd. Mae'n rhoi i Archwilydd Cyffredinol Cymru yr hyblygrwydd i ofyn i Weinidogion Cymru am estyniad i gwblhau'r adroddiadau archwilio ac asesu ar gyfer un o'r awdurdodau a enwyd neu ragor (heb fod angen gorchymyn).

Caiff yr adroddiad neu'r adroddiadau o dan adran 20 gynnwys argymhellion i'r awdurdod am sut y dylai gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon a'r hyn y dylai ei wneud i weithredu yn unol â'r canllawiau.

**Adran 21 – Ymateb i adroddiadau adran 20**

Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod ymateb i adroddiad neu adroddiadau gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 20 os yw'n cynnwys:

- argymhelliad i'r awdurdod am y camau y dylai eu cymryd i gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon o'r Mesur ;
- datganiad bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn bwriadu cynnal arolygiad arbennig ; neu
- argymhelliad i Weinidogion Cymru y dylent ddefnyddio'u pwerau cynorthwyo neu eu pwerau ymyrryd .

Rhaid hefyd i'r awdurdod baratoi datganiad sy'n nodi'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd a'r amserlen ar gyfer gwneud hynny. Rhaid hefyd i'r awdurdod gynnwys y datganiad yn y cynllun gwella ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Os yw adroddiad yn cynnwys argymhelliad y dylai Gweinidogion Cymru defnyddio'r pŵer ymyrryd yn adran 30, rhaid hefyd i'r awdurdod anfon copi o'i ddatganiad at Weinidogion Cymru o fewn 30 diwrnod gwaith.

**Adran 22 – Arolygiadau arbennig**

Mae adran 22 yn caniatáu i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal arolygiad arbennig o awdurdod gwella Cymreig.

Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal arolygiad o'r fath os yw'r Archwilydd Cyffredinol neu unrhyw rai o'r rheoleiddwyr perthnasol yn credu y gallai awdurdod perthnasol fethu cydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon.

Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn penderfynu cynnal arolygiad arbennig.

Mae is-adran (4) yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal arolygiad arbennig, ond cyn gwneud hynny mae'n rhaid iddynt ymgynghori ag Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Adran 23 – Adroddiadau am arolygiadau arbennig**

Mae adran 23 yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynhyrchu adroddiad ar bob arolygiad arbennig y bydd yn ei gynnal. Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru grybwyll yn yr adroddiad a yw'n credu o ganlyniad i'r arolygiad arbennig fod yr awdurdod gwella Cymreig yn methu â chydymffurfio â gofynion Rhan 1 o'r Mesur. Mae hefyd yn cael argymell y dylai Gweinidogion Cymru ddefnyddio'u pwerau cynorthwyo neu eu pwerau cyfarwyddo yn adrannau 29-30 o'r Mesur.

Dylai copi o'r adroddiad gael ei anfon at yr awdurdod gwella Cymreig a arolygwyd ac at Weinidogion Cymru.

Mae adran 23 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol anfon adroddiadau yn ymwneud â swyddogaethau awdurdodau lleol mewn perthynas â budd-daliadau at yr Ysgrifennydd Gwladol (dros Waith a Phensiynau).

**Adran 24 – Cydlynu archwiliad etc**

Mae adran 24 yn gosod dyletswydd ar yr holl reoleiddwyr perthnasol i roi sylw i gydlynu wrth arfer swyddogaethau rheoleiddio. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ymgynghori â'r rheoleiddwyr perthnasol a llunio amserlen ar gyfer rheoleiddio ac arolygu pob awdurdod. Yna rhaid i'r holl reoleiddwyr perthnasol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru gymryd pob cam rhesymol i gadw at yr amserlen.

**Adran 25 – Adroddiadau gwella blynyddol**

Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynhyrchu a chyhoeddi bob blwyddyn adroddiad gwella blynyddol ar gyfer pob awdurdod gwella Cymreig. Rhaid i'r adroddiad gynnwys crynodeb o ganlyniadau unrhyw adroddiad a ddyroddwyd o dan adrannau 20 a 23 o'r Mesur. Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru ystyried yng ngoleuni'r adroddiad a ddylid:

- argymell i reolydd perthnasol sut y dylai arfer ei swyddogaethau;
- argymell y dylai Gweinidogion Cymru arfer eu pwerau o dan adran 29 ac adran 30; neu
- arfer unrhyw rai o'i swyddogaethau mewn perthynas â'r awdurdod.

**Adran 26 – Datganiad o arfer**

O dan adran 26 mae'n rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynhyrchu datganiad sy'n nodi sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau o dan adrannau 17, 18, 20, 24 a 25 o'r Mesur. Dylai'r datganiad gael ei adolygu'n barhaus a rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru cyn cael ei gyhoeddi a chyn i unrhyw ddiwygiadau iddo gael eu cyhoeddi.

**Adran 27 – Pwerau a dyletswyddau arolygwyr**

Mae adran 27 yn nodi pwerau a dyletswyddau arolygydd wrth gynnal archwiliad o dan adran 17, asesiad o dan adran 18 neu arolygiad arbennig o dan adran 22 o'r Mesur.  Mae'n rhoi hawliau i'r arolygydd fynd i fangreoedd a gweld dogfennau, sef hawliau sy'n debyg i'r rhai sydd gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 11 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999.

**Adran 28 – Ffioedd**

Mae adran 28 yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru osod graddfa neu raddfeydd ffioedd am gynnal archwiliadau, asesiadau ac arolygiadau arbennig. Bydd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ddisgresiwn i godi ffi sy'n wahanol i'r raddfa osod os bydd y gwaith ar gyfer archwiliad, asesiad neu arolygiad arbennig yn fwy neu'n llai na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. Cyn pennu graddfa ffioedd, rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru ymgynghori â Gweinidogion Cymru a chynrychiolwyr awdurdodau gwella Cymreig.

Mae'r adran hon hefyd yn sicrhau bod y ffioedd y bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn eu codi o dan y Mesur hwn yn cael eu trin yr un fath â'r ffioedd y bydd yn eu codi at ddibenion eraill.

**Adran 29 – Gweinidogion Cymru: cymorth i awdurdodau gwella Cymreig**

Mae adran 29 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud unrhyw beth y maent yn credu ei fod yn debyg o helpu awdurdod gwella Cymreig i gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon o'r Mesur. Un bras yw'r pŵer hwn am ei bod yn amhosibl pennu'n fanwl-gywir holl ffurfiau posibl cymorth o'r fath.  Er hynny, nid yw Gweinidogion Cymru yn cael defnyddio'r pŵer er mwyn cyfarwyddo awdurdod na neb arall: i wneud hynny, byddai angen iddynt ddefnyddio'r pwerau yn adran 30, sef pwerau sy'n destun amodau. O dan yr adran hon mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r awdurdod gwella Cymreig perthnasol cyn rhoi cymorth oni bai y bydd yr awdurdod perthnasol wedi gofyn am gymorth o'r fath.

**Adran 30 – Gweinidogion Cymru: pwerau cyfarwyddo etc**

Mae adran 30 yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru ymyrryd mewn awdurdod lleol sy'n methu â chydymffurfio â'r Mesur neu sydd mewn

perygl o wneud hynny, a rhoi cyfarwyddiadau iddo. Dim ond o dan yr amodau canlynol y caniateir i'r pŵer hwn gael ei arfer:

- os yw'r awdurdod gwella Cymreig wedi cael cymorth o dan adran 29, ond bod hynny heb gywiro'r broblem; neu
- os yw'r awdurdod gwella Cymreig yn methu neu'n debyg o fethu â chydymffurfio â gofynion y rhan hon o'r Mesur a bod brys y sefyllfa a/neu ddifrifoldeb y sefyllfa yn atal cymorth rhag cael ei gynnig;
- os yw'r awdurdod gwella Cymreig yn methu neu'n debyg o fethu cydymffurfio â gofynion y rhan hon o'r Mesur, os yw Gweinidogion Cymru wedi penderfynu ei bod yn dymuno arfer y pŵer cynorthwyo o dan adran 29, ond na ellir ei arfer am fod yr awdurdod wedi methu â chydymffurfio â Gweinidogion Cymru

Yna mae'r dewisiadau sy'n agored i Weinidogion Cymru fel y maent wedi'u nodi yn isadrannau (2) i (6). Mae'r rhain yn debyg i'r pwerau presennol yn adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999. Serch hynny, mae'r pŵer yn mynd y tu hwnt i bŵer yr Ysgrifennydd Gwladol yn Neddf Llywodraeth Leol 1999 a hynny am ei fod yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod i gydlafurio ag awdurdod arall (is-adran (2c)).

**Adran 31 – Pwerau cyfarwyddo: trefniadau cydlafurio**

Mae adran 31 yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod gwella Cymreig nad yw ei hun yn methu (nac mewn perygl o fethu) i gydlafurio ag un sy'n methu neu sydd mewn perygl o fethu. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r awdurdod cyntaf cyn rhoi'r cyfarwyddyd. Diben hyn yw sicrhau y byddai Gweinidogion Cymru yn cael cyfarwyddo awdurdod B i gydlafurio, pe gallai gwendid yn awdurdod A gael sylw drwy ei gael ei gydlafurio ag awdurdod B (a fyddai heb wendidau o'r fath), ond y byddai'n rhaid iddynt ymgynghori ag awdurdod B cyn rhoi unrhyw gyfarwyddyd.

**Adran 32 – Pŵer Gweinidogion Cymru i addasu deddfiadau a rhoi pwerau newydd**

Mae adran 32 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru (drwy orchymyn) wneud darpariaeth i addasu neu i atal deddfiadau sy'n gymwys i awdurdodau gwella Cymreig. Dim ond os ydynt wedi'u bodloni bod y deddfiad yn atal neu'n rhwystro awdurdod gwella Cymreig rhag cydymffurfio â darpariaethau Rhan 1 o'r Mesur y caiff Gweinidogion Cymru wneud hyn.

Mae gan Weinidogion Cymru bŵer hefyd i roi unrhyw bŵer ychwanegol i awdurdod gwella Cymreig y maent yn credu ei fod yn angenrheidiol er mwyn hwyluso cydymffurfio â Rhan 1 o'r Mesur.

Wrth arfer pŵer a roddir iddo, rhaid i awdurdod gwella Cymreig gymryd i ystyriaeth unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

**Adran 33 – Gorchmynion o dan adran 32: y weithdrefn**

Mae adran 33 yn disgrifio'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu dilyn wrth wneud gorchymyn o dan adran 32. Oni bai bod gorchymyn o'r fath yn diwygio gorchymyn sydd eisoes yn bod a dim byd arall, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw awdurdodau neu bersonau y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli buddiannau y bydd eu cynigion yn effeithio arnynt. Mae'n rhaid hefyd iddynt osod dogfen gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru i esbonio'u cynigion am o leiaf 60 diwrnod (heb gynnwys cyfnodau pan fo'r Cynulliad ar doriad) cyn i'r Cynullid ystyried y gorchymyn drafft. Mae'r gofynion hyn yn ychwanegol at y rheidrwydd i'r gorchymyn fynd fel rheol drwy'r weithdrefn gadarnhaol yn unol â gofynion adran 50.

**Adran 33A – Rhannu gwybodaeth**

Mae adran 33A yn ei gwneud hi'n ddyletswydd o'r ddwy ochr i Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r cyrff rheoleiddio perthnasol roi i'w gilydd wybodaeth a fyddai'n eu cynorthwyo wrth gyflawni'r swyddogaethau hynny a ddisgrifir yn is-adran (4).

**Adran 34 – Y modd y mae gwybodaeth i'w defnyddio gan reoleiddwyr**

Mae'r modd y bydd gwybodaeth a gesglir gan y rheoleiddwyr perthnasol wrth arfer eu swyddogaethau perthnasol yn cael ei defnyddio wedi'i gyfyngu gan ddeddfwriaeth arall.  Mae adran 34 yn caniatáu i'r rheoleiddwyr ddefnyddio unrhyw wybodaeth a dogfennau perthnasol a gyflwynir iddynt neu a sicrheir ganddynt er mwyn arfer eu swyddogaethau o dan y Mesur hwn.

**Adran 35 – Rhan 1: Dehongli**

Mae'r adran hon yn diffinio nifer o dermau sy'n cael eu defnyddio yn Rhan 1.

**Adran 36 – Cyllid**

Mae adran 36 yn diwygio adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999. Mae'r adran hon yn sicrhau y caiff arian Gweinidogion Cymru i Archwilydd Cyffredinol Cymru gymryd i ystyriaeth wariant sy'n codi o dan y Mesur hwn.

## Rhan 2 – Strategaethau Cymunedol a Chynlluniau Cymunedol

### Adran 37 – Cynllunio Cymunedol

Mae adran 37 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gychwyn cynllun cymunedol i'w hardal, ei gynnal, ei hwyluso a chymryd rhan ynddo.

Mae'r adran yn diffinio cynllunio cymunedol fel proses y mae awdurdod lleol a'i bartneriaid cynllunio cymunedol yn ei defnyddio i nodi amcanion hirdymor ar gyfer gwella llesiant economaidd, cymdeithasol ac economaidd ardal yr awdurdod lleol a hefyd i gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r diffiniad o gynllunio cymunedol hefyd yn cynnwys dod o hyd i'r camau sydd i'w cymryd a'r swyddogaethau sydd i'w harfer er mwyn gwireddu'r amcanion hirdymor

Mae adran 37 hefyd yn gosod dyletswydd ar bartneriaid cynllunio cymunedol:

- i gymryd rhan mewn cynlluniau cymunedol;
- i helpu'r awdurdod lleol wrth gyflawni dyletswyddau'r awdurdod lleol.

### Adran 38 – Ystyr "partneriaid cynllunio cymunedol"

Mae adran 38 yn rhestru'r cyrff cyhoeddus a ddiffinnir o dan Ran 2 o'r Mesur fel 'partneriaid cynllunio cymunedol', sef: cynghorau cymuned ; awdurdodau tân ac achub; Byrddau Iechyd Lleol; Ymddiriedolaethau GIG; awdurdodau Parciau Cenedlaethol; awdurdodau heddlu; a phrif gwnstabl heddlu ardal yr awdurdod heddlu.

Mae is-adran (1)(ch) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru bennu drwy gyfarwyddyd pa Ymddiriedolaethau GIG sy'n bartneriaid cynllunio cymunedol i awdurdodau lleol penodol. Mae angen gwneud hyn am nad yw ffiniau Ymddiriedolaethau GIG yn cyd-fynd â ffiniau'r awdurdodau lleol.

O dan adran 38 mae gan Weinidogion Cymru bŵer, drwy orchymyn, i ddiwygio, ychwanegu neu hepgor cyrff o'r rhai sydd wedi'u rhestru fel partneriaid cynllunio cymunedol. Dim ond ar ôl ymgynghori â'r corff o dan sylw, ac â chynrychiolwyr i'r awdurdod neu'r awdurdodau lleol a fyddai'n cydweithredu ag ef y caniateir i orchymyn o'r fath gael ei wneud.

Ni chaniateir i orchymyn sy'n cael ei wneud o dan yr adran hon ddynodi person nad oes ganddo swyddogaethau o natur gyhoeddus yn bartner cynllunio cymunedol.

**Adran 39 – Llunio strategaeth gymunedol**

Pan fydd awdurdod lleol a phartneriaid cynllunio cymunedol wedi dod i gonsenswS o ran amcanion y strategaeth gymunedol a chamau i'w cymryd, mae'r adran hon yn pennu bod rhaid i awdurdod lleol gynhyrchu dogfen (a elwir yn strategaeth gymunedol yn y Mesur) sy'n disgrifio'r consenswS hwnnw.

Rhaid i'r strategaeth gymunedol gynnwys amcanion priodol, a chamau i wireddu'r amcanion hynny.

Rhaid i'r strategaeth gymunedol gael ei chynhyrchu a'i chyhoeddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r consenswS rhwng yr awdurdod lleol a'r partneriaid cynllunio cymunedol gael ei gyrraedd.

**Adran 40 – Strategaethau cymunedol: dyletswydd adolygu**

Mae adran 40 yn pennu y dylai strategaeth gymunedol gael ei hadolygu gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid cynllunio cymunedol o leiaf bob pedair blynedd.

**Adran 41 – Adolygiadau o strategaeth gymunedol**

Dylai strategaeth gymunedol gael ei hadolygu er mwyn ystyried i ba raddau y mae'r amcanion wedi'u gwireddu, ac os nad ydynt wedi'u gwireddu pa gynnydd sydd wedi'i wneud tuag at hynny.

Yng ngoleuni'r adolygiad hwn, mae'n bosibl y bydd yr awdurdod lleol a'i bartneriaid cynllunio cymunedol o'r farn ei bod yn briodol diwygio'r amcanion cymunedol a'r camau neu gytuno ar rai newydd. Pan fydd consenswS wedi'i gyrraedd, dylai'r awdurdod lleol ddiwygio'r strategaeth gymunedol a'i hailgyhoeddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

**Adran 42 – Strategaethau cymunedol: monitro**

Mae adran 42 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol a'i bartneriaid cynllunio cymunedol wneud trefniadau ar gyfer monitro'r cynnydd sydd wedi'i wneud ynglŷn â gwireddu amcanion y strategaeth gymunedol a'r camau sy'n gysylltiedig â hynny.

Mae adran 42 hefyd yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i gyhoeddi datganiad o leiaf bob dwy flynedd ar y cynnydd sydd wedi'i wneud tuag at fodloni amcanion y strategaeth gymunedol ac ar gymryd y camau sydd wedi'u priodoli i'r amrywiol gyrff cynllunio cymunedol.

**Adran 43 – Strategaethau cymunedol: gweithredu**

Pan fo'r strategaeth gymunedol yn pennu cam i'w gymryd neu swyddogaeth i'w harfer gan yr awdurdod lleol neu ei bartneriaid cynllunio cymunedol, mae'r adran hon yn pennu wedyn fod rhaid iddo wneud

popeth sy'n rhesymol er mwyn cymryd y cam neu i arfer y swyddogaeth yn unol â'r strategaeth gymunedol.

**Adran 44 – Cynllunio cymunedol etc: cyfraniad y gymuned**

Mae adran 44 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol a'i bartneriaid cynllunio cymunedol wneud trefniadau i gynnwys y canlynol a chymryd eu barn i ystyriaeth:

- trigolion lleol;
- rhai nad ydynt yn drigolion lleol ond sy'n cael gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod neu gan un o'i bartneriaid cynllunio cymunedol;
- cynrychiolwyr cyrff gwirfoddol;
- cynrychiolwyr buddiannau busnes; ac
- unrhyw un arall sydd ym marn yr awdurdod yn ymddiddori mewn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol yr ardal

mewn cysylltiad â chynllunio cymunedol, paratoi strategaeth gymunedol ac adolygu strategaeth gymunedol.

**Adran 45 – Cynllunio cymunedol etc: canllawiau**

Mae adran 45 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ar y canlynol:

- proses cynllunio cymunedol;
- cynhyrchu ac adolygu strategaeth gymunedol; a'r
- dyletswyddau yn adrannau 42 i 44.

Mae'r adran hon hefyd yn pennu bod rhaid i awdurdod lleol a'i bartneriaid cynllunio cymunedol roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon.

**Adran 46 – Cynllunio cymunedol etc: rôl Gweinidogion Cymru**

Mae Adran 46 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hybu a hyrwyddo cynllunio cymunedol wrth arfer swyddogaeth a allai effeithio ar gynllunio cymunedol cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol iddynt wneud hynny.

**Adran 47 – Rhan 2: dehongli**

Mae'r adran hon yn diffinio nifer o dermau sy'n cael eu defnyddio yn Rhan 2.

# Rhan 3 – Cyffredinol

### Adran 48 – Canllawiau

Mae nifer o ddarpariaethau yn y Mesur yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau. Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau gwahanol i gyrff gwahanol, gan ganiatáu hyblygrwydd felly. Mae adran 48 hefyd yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru, cyn dyroddi canllawiau, ymgynghori â'r awdurdod neu'r partïon o dan sylw neu'r rhai y mae'n ymddangos eu bod yn ei gynrychioli. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r holl ganllawiau o'r fath.

### Adran 49 – Cyfarwyddiadau

Mae sawl darpariaeth yn y Mesur yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i gorff sydd wedi'i enwi. Mae adran 49 yn caniatáu i Weinidogion Cymru amrywio neu ddirymu unrhyw gyfarwyddyd drwy roi cyfarwyddyd dilynol, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i bob cyfarwyddyd fod yn ysgrifenedig.

### Adran 50 – Gorchmynion a rheoliadau

Mae'r adran hon yn darparu i orchmynion a rheoliadau o dan y Mesur gael eu gwneud drwy offeryn statudol ac mae'n nodi gweithdrefnau'r Cynulliad mewn perthynas â'r offerynnau hynny.

### Adran 51 – Diwygiadau canlyniadol etc a darpariaeth drosiannol a darpariaeth arbed

Mae pŵer yn cael ei roi i Weinidogion Cymru fynd ati, drwy orchymyn, i ddiwygio, diddymu neu ddirymu deddfiadau er mwyn gwneud diwygiadau canlyniadol.

Mae Atodlen 1 yn cynnwys diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â Rhan 1 o'r Mesur.

Mae Atodlen 2 yn cynnwys diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â Rhan 2 o'r Mesur. Er enghraifft, mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol ystyried strategaethau cymunedol a gyhoeddwyd o dan y Mesur (ac nid, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, y rheini a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000) wrth lunio eu Cynlluniau Datblygu Lleol.

Mae Atodlen 2A yn cynnwys darpariaethau trosiannol i gadw strategaethau cymunedol a luniwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 hyd nes y bydd awdurdodau lleol wedi llunio strategaethau newydd o dan y Mesur. Bydd yn rhaid i awdurdodau lleol ac awdurdodau Parciau

Cenedlaethol barhau i roi ystyriaeth i'w 'hen' strategaethau cymunedol hyd nes y bydd y rhai newydd wedi'u cyhoeddi o dan y Mesur.

**Adran 52 – Diddymiadau**

Mae Atodlen 3 yn cynnwys diddymiadau gan gynnwys, yn benodol, Ran 1 o Ddeddf Llywodraeth leol 1999 i'r graddau y mae'n ymwneud ag awdurdodau gwella Cymreig.

**Adran 53 – Cychwyn**

Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch cychwyn y Mesur. Yn gyffredinol, bydd darpariaethau'r Mesur yn dod i rym drwy orchymyn a fydd yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymru.